

Mark Leighfield
Pennaeth
Coleg Catholig Dewi Sant
Ffordd Tŷ Gwyn
Pen-y-lan
Caerdydd
CF2 5YD

21 Awst 2014

Annwyl Mr Leighfield

Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg Catholig Dewi Sant

Yn dilyn yr ymweliad Adolygiad Blynyddol o Berfformiad â'ch sefydliad ar 13 ac 14 Mai, mae'r llythyr hwn yn ffurfio adroddiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw. Mae'r llythyr wedi'i gyhoeddi ar wefan Estyn.

Arfarnodd Rachael Bubalo AEM berfformiad presennol y sefydliad ac adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o arolygiadau cynharach. Mae hyn wedi arwain at nodi rhagor o feysydd i'w gwella, sydd wedi'u nodi ar ddiwedd y llythyr.

Cynhaliodd Rachael Bubalo AEM drafodaethau gyda'r pennaeth ac uwch arweinwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol. Craffodd ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion yr arolygiad blaenorol. Ystyriodd ansawdd yr addysgu a'r dysgu hefyd trwy gynnal taith ddysgu, cymerodd sampl o arsylwadau gwersi a chraffu ar broses arsylwi gwersi'r darparwr.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd Rachael Bubalo ei chanfyddiadau wrth bennaeth y sefydliad ac aelodau eraill o'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Canlyniad ymweliad yr arolygydd cyswllt

Arolygwyd Coleg Dewi Sant gan Estyn yn 2010 a barnodd fod ei berfformiad cyffredinol yn rhagorol, gyda rhagolygon gwella rhagorol. Ers yr arolygiad, mae cyflymder y gwelliant yn y sefydliad, yn ogystal â'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a adawyd gan y tîm arolygu, wedi bod yn dda.

1 Deilliannau a safonau

Mae data pob cwrs ar gyfer 2012-2013 yn dangos bod y cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arnynt (cyfraddau llwyddo) wedi parhau i wella dros y tair blynedd diwethaf. Cyfradd llwyddo gyffredinol y coleg yn 2012/13 ar gyfer yr holl gyrsiau oedd 83%, yn erbyn cymharydd cenedlaethol o 85%. Mae wyth deg tri y cant o ddarpariaeth y coleg yn cynnwys cyrsiau hir Lefel 3, oedd â chyfradd llwyddo o 84% ar gyfer 2013. O ganlyniad, roedd y coleg yn y safle cyntaf yn y sector ar gyfer perfformiad yn y rhain. Mewn Safon Uwch/A2, y gyfradd llwyddo gyffredinol yw 85% ac mae uwchlaw cyfartaledd y sector. Mae perfformiad dysgwyr rhaglen Anrhydedd (mwy galluog a dawnus) yn gryf iawn, a llwyddodd 100% o'r dysgwyr i ennill graddau A*-C yn 2013. Fodd bynnag, ar gyfer graddau A/B yn gyffredinol, mae Dewi Sant yn parhau i fod islaw'r cymharydd cenedlaethol ar gyfer sefydliadau yng Nghymru.

Mewn meysydd sector pwnc, dengys data'r coleg bod gan bedwar allan o 11 gyfraddau llwyddo sydd uwchlaw cymaryddion cenedlaethol. Mae'r pedwar maes hyn yn cyfrif am dros 60% o ddarpariaeth y coleg. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn neilliannau'r dysgwyr rhwng cyrsiau at ei gilydd..

Mae cyfraddau llwyddo ar Sgiliau Hanfodol Cymru ymhell uwchlaw cymaryddion cenedlaethol ac mae'r coleg yn y safle cyntaf ar gyfer yr holl lefelau a chymwysterau.

2 Medrau Hanfodol

Mae'r coleg yn rhoi sylw da i wella medrau hanfodol dysgwyr ac mae'n cynnwys hyn fel amcan strategol yn ei gynllun tair blynedd. Mae'n sgrinio pob dysgwr ac yn rhoi trefniadau cymorth cynhwysfawr ar waith, sy'n cynnwys gweithdai, mentora cyfoedion a sesiynau galw i mewn.

Mae'r coleg wedi ymgorffori mentrau i wella medrau yn dda. Gall pob dysgwr fanteisio ar adnoddau personol ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys pecynnau canllawiau llythrennedd a rhifedd yn holl feysydd y cwricwlwm a deunyddiau cymorth ychwanegol a ddarperir mewn rhaglenni bugeiliol. Mae staff yn cofnodi proffiliau medrau hanfodol dysgwyr ar eu e-gynllun dysgu unigol. Mae'r cymorth ar gyfer dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn dda hefyd.

Mae'r coleg yn monitro darpariaeth yn dda i sicrhau bod ansawdd y cymorth yn aros yn uchel. Mae'r coleg yn hyfforddi pob un o'r staff yn dda. Mae'r coleg yn hyfforddi anogwyr dysgu hefyd i gymryd rhan bwysig yn y trefniadau cymorth ar gyfer dysgwyr.

Mae systemau i gasglu data ar anghenion dysgwyr a'r cymorth a gânt yn dda; fodd bynnag, nid yw'r coleg yn mesur manteision gwerth ychwanegol eu cyfnod yn y coleg i ddysgwyr eto.

Mae'r coleg wedi cynnal prosiect ymchwil defnyddiol ar addysgu medrau darllen mewn pynciau Safon Uwch. Bydd y canlyniadau yn llywio gwelliannau i addysgu llythrennedd.

3 Addysgu ac asesu

Mae'r coleg wedi rhoi systemau effeithiol ar waith i wella addysgu ac asesu. Mae uwch staff yn arsylwi pob un o'r athrawon yn flynyddol i wella'u harfer addysgu. Caiff staff newydd eu harsylwi ar bedwar neu bum achlysur. Mae arsyllwyr yn rhoi sylw da i sicrhau bod athrawon yn canolbwyntio ar wella medrau hanfodol dysgwyr. Yn 2013, barnodd y coleg fod bron pob gwrs yn dda neu'n well.

Mae arsylwadau'n drylwyr ac yn darparu tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd y dysgu ar lefel cwrs a rhaglen. Mae rheolwyr yn defnyddio'r canlyniadau'n dda i osod targedau yng ngwerthusiadau perfformiad blynyddol athrawon. Caiff anogwyr dysgu eu cynnwys yn ddefnyddiol yn y trefniadau hyn. Mae'r coleg yn rhoi cymorth priodol i athrawon y mae angen iddynt wella'u harfer.

Caiff meysydd i'w gwella eu hadlewyrchu'n briodol yn rhaglen datblygiad staff y coleg. Mae'r coleg yn defnyddio'r broses hon yn dda i wella meysydd fel arfer asesu, ac yn sicrhau amrywiaeth a her mewn gwrsi. O ganlyniad, mae ffocws llawer cryfach erbyn hyn ar ddulliau addysgu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

4 Cwricwlwm

Mae'r coleg yn gwneud defnydd da o ystod o wybodaeth y farchnad lafur i gynllunio'i gwricwlwm. Mae'n ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae wedi nodi meysydd allweddol i'w datblygu, sef gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) ac ieithoedd tramor modern.

Mae Prifysgol Caerdydd, y mae gan y coleg bartneriaeth dda a datblygol â hi, yn cynnal yr hyn sy'n ymddangos yn gynhadledd haf gyffrous ar gyfer hyd at 400 o fyfyrwyr Dewi Sant. Bydd y dysgwyr hyn yn gallu cymryd rhan mewn gweithdai a darlithoedd sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo diddordeb mewn pynciau fel peirianeg, ffiseg a seryddiaeth.

Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas ag ieithoedd tramor modern hefyd. Bydd rhaglen gynlluniedig o weithgareddau yn cynnwys Dosbarthiadau Meistr ar gyfer myfyrwyr ac ysgol haf.

Mae'r coleg wedi ymateb yn dda i anghenion cyflogwyr lleol er mwyn i'r rhai sy'n gadael yr ysgol gael medrau generig da. Mae wedi datblygu Rhaglen Medrau Proffesiynol i ddatblygu medrau arwain a rheoli a gwella cyflogadwyedd dysgwyr. Mae'r cwrs hwn yn agored i bob dysgwr yn y coleg.

Mae'r coleg yn rhoi sylw da i ddatblygu medrau lefel uwch yn y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr sy'n mynd ymlaen i brifysgol ac ymlaen i lefelau astudio ôl-raddedig. Er enghraifft, mae wedi datblygu cwrs mathemateg swyddogaethol i ddysgwyr wella'u medrau yn y pwnc hwn.

Mae'r coleg yn cynnig nifer o gyrсияu newydd yn 2014. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifiaduro, gwareiddiad clasurol a defnyddio mathemateg Lefel 3 a darpariaeth alwedigaethol newydd ar Lefel 2 mewn partneriaeth ag ysgol leol.

5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn pennu cyfeiriad clir ar gyfer gwaith y coleg. Mae'n sicrhau cydbwysedd llwyddiannus rhwng cyflawni deilliannau ansawdd uchel a bodloni anghenion ei gymuned ffydd, ac yn ceisio ehangu cyfranogiad i fod yn goleg sy'n gymdeithasol amrywiol ar yr un pryd. Yn 2013, cyfran y dysgwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol oedd 26.8% a chyfran y dysgwyr o feysydd sy'n profi difreintedd addysgol oedd 47%. Mae'r coleg yn boblogaidd ac mae gormod o alw am leoedd yno.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cyfleu ei weledigaeth yn dda i staff ar bob lefel. Mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth dda o'u rôl mewn gwella deilliannau i ddysgwyr. Mae strwythurau rheoli yn glir. Mae rheolwyr yn mynd i'r afael â thanberfformio yn uniongyrchol. Caiff staff gyfleoedd da i roi eu safbwyntiau i uwch reolwyr ac maent yn rhoi sylw da i wrando ar ddysgwyr.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau, maent yn wybodus ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r meysydd yn y coleg y mae angen eu gwella. Cânt adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ac mae'r pwyllgor cwricwlwm yn rhoi her realistig i'r broses gosod targedau. Mae llywodraethwyr yn cydnabod pwysigrwydd cynghreiriau strategol ac yn rhoi sylw da i'w datblygu a'u cefnogi.

6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (Sicrhau Ansawdd)

Mae gan y coleg systemau cadarn ac effeithiol ar gyfer gwella ansawdd. Mae'r calendr ansawdd blynyddol yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i bob un o'r staff a'r dysgwyr gymryd rhan yn y daith hunanwella. Mae'r adroddiad hunanasesu yn gynhwysfawr ac arfarnol.

Mae rheolwyr yn gwneud defnydd da o ystod o ddata i nodi a gwella meysydd sy'n tanberfformio yn gyflym. Mae'r coleg wedi datblygu ystod effeithiol o gymorth ar gyfer meysydd y mae angen eu gwella. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau cymheiriaid, ymweliadau â cholegau eraill i arsylwi arfer dda, mentora cyfoedion a chymorth ar gyfer cynllunio gwersi.

Mae'r coleg yn dadansoddi'r deilliannau a gyflawnir gan grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn ôl rhyw, ethnigrwydd a chefnidir economaidd gymdeithasol yn dda i nodi p'un a yw dysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwylidig.

Mae staff ym mhob maes rhaglen yn cymryd cyfrifoldeb da am lunio cynlluniau gweithredu diagnostig ac yn cymharu eu perfformiad yn erbyn meincnodau cenedlaethol a meincnodau eraill.

Mae'r coleg yn rhoi sylw da iawn i safbwyntiau dysgwyr ac mae'n cymryd camau effeithiol i ymateb i adborth negyddol. Caiff canlyniadau arolwg Llais y Dysgwr eu hategu'n dda gan ymchwil y coleg ei hun a gofynnir am farn dysgwyr yn rheolaidd. Ceir trefniadau da ar gyfer ymgynghori â rhieni.

Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn nodi'r prif feysydd i'w datblygu yn briodol. Mae'r coleg wedi rhoi nifer o gamau gweithredu ar waith i fodloni'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

7 Crynodeb ar gynnydd ar yr argymhellion a amlinellir yn adroddiad 2010

Mae'r coleg wedi llunio cynllun gweithredu manwl yn dangos sut y gwnaeth fodloni'r pum argymhelliad o adroddiad arolygu Estyn 2010. Mae tri o'r argymhellion yn ymwneud â gwella agweddau ar addysgu a dysgu. I ymateb i hynny, mae'r coleg wedi adolygu ei gynllun arsylwi addysgu a chynllunio gwersi i roi ystyriaeth well i anghenion dysgwyr a nodwyd yn yr e-gynllun dysgu unigol.

Y pedwerydd argymhelliad oedd canolbwyntio ar faterion sy'n fwy penodol i bwnc mewn adolygiadau cwrs. I ymateb i hynny, mae'r coleg wedi datblygu system o adolygiadau timau cwrs blynyddol i sicrhau ffocws gwell ar faterion yn gysylltiedig â phwnc.

Yr argymhelliad olaf oedd gwella'r ffordd y mae'r cyngor myfyrwyr yn cyfathrebu ac ymgysylltu â dysgwyr. Mae'r coleg wedi cyflawni hyn trwy amrywiaeth o strategaethau cyfathrebu, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwefan ddynodedig. Mae'r coleg hefyd yn trefnu darpariaeth ar gyfer swyddfa Cyngor y Myfyrwyr gyda chyfrifiadur a llinell ffôn.

8 Agweddau eraill

Llais y Dysgwr

Mae'r coleg yn rhoi sylw da iawn i ganlyniadau arolwg y dysgwyr. Mae'n llunio cynlluniau manwl yn dangos y camau y bydd yn eu cymryd i ymateb i'r adborth. Mae gan y coleg ei systemau effeithiol ei hun ar gyfer casglu barn dysgwyr hefyd. Mae'n rhoi ystyriaeth dda iawn i'r rhain i wella profiad dysgwyr o'r coleg.

Yn 2014, cymerodd 899 o ddysgwyr ran yn arolwg Llais y Dysgwr Cymru. Mae hyn yn cynrychioli hanner holl ddysgwyr y coleg. Roedd wyth deg y cant o'r holl ddysgwyr yn yr arolwg yn ystyried y coleg yn dda neu'n dda iawn yn gyffredinol. Mae hyn ychydig yn well na chyfartaledd y sector. Dywedodd wyth deg saith y cant ohonynt fod eu cwrs yn well neu yn unol â'r disgwyl. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfartaledd y sector.

Roedd saith deg chwech y cant o ddysgwyr yn yr arolwg yn ystyried eu haddysgu a'u dysgu yn dda neu'n dda iawn. Fodd bynnag, ym maes gwybodaeth a chyngor – i gael gwybodaeth wrth ddewis cwrs a'r opsiynau sydd ar gael pan ddewiswyd y cwrs – fe wnaeth dysgwyr roi sgôr is i'r coleg nag yn 2013.

At ei gilydd, mae'r coleg wedi gwella'i berfformiad ei hun yn yr arolwg er 2013. Fodd bynnag, bron ym mhob maes, nid yw'r coleg yn cymharu cystal â meincnodau cenedlaethol ar gyfer dysgwyr addysg bellach yng Nghymru.

9 Yr iaith Gymraeg

Mae'r coleg yn dangos ymrwymiad da iawn i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a'r 'dimensiwn Cymreig' yn ei gwricwlwm. Mae wedi adolygu ei Gynllun Iaith Gymraeg, wedi penodi hyrwyddwr dwyieithog ac wedi cytuno ar dargedau tair blynedd heriol gyda Llywodraeth Cymru. Mae pob un o'r staff yn gefnogol i'r gweithgarwch datblygu yn y maes hwn.

Yn arolwg Llais y Dysgwr, dywedodd 93% o ddysgwyr fod yn well ganddynt ddysgu yn Saesneg. Fodd bynnag, mae'r coleg yn trefnu darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd eisiau dysgu yn Gymraeg hefyd. Mae nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Gymraeg neu ddwyieithog gryn dipyn yn fwy na tharged y coleg.

Mae'r coleg wedi datblygu mentrau llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr Gymraeg mamiaith gan gynnwys llyfrynnau terminoleg a chyflwyno Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae mentrau i ymgorffori'r dimensiwn Cymreig ymhellach ym mywyd a gwaith y coleg yn cynnwys adolygu elfen Cymru, Ewrop a'r Byd ym Magloriaeth Cymru a chael elfen Gymreig yn Ffair y Glas i godi ymwybyddiaeth am y cymorth iaith sydd ar gael i fyfyrwyr.

Nid yw'r coleg yn rhagweld y bydd cyflwyno Rhaglenni Meysydd Dysgu yn effeithio'n sylweddol ar ei fodel cynllunio. Fodd bynnag, mae wedi datblygu model cynllunio cwricwlwm portffolios dysgu i ganiatáu ar gyfer mwy o raglenni teilwredig o gymorth bugeiliol. Mae'r coleg wedi cydnabod hefyd fod angen iddo wella'i wybodaeth am gyrchfannau ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn mynd yn eu blaen i brifysgol.

Mae'r coleg wedi cynyddu nifer ac ystod ei gynghreiriaid a'i bartneriaethau strategol. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol, y Rhwydwaith 14-19, colegau addysg bellach eraill, ysgolion a sefydliadau addysg uwch. Mae'n alinio'i weithgareddau'n briodol â threfniadau cynllunio strategol lleol a rhanbarthol. Mae'n rhoi blaenoriaeth uchel i ddeilliannau, ansawdd a dewis ar gyfer dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill.

Argymhellion

Er mwyn ysgogi'r gwelliannau angenrheidiol mewn modd amserol, dylai'r coleg wneud y canlynol:

- A1 Lleihau'r amrywiant mewn cyfraddau llwyddo rhwng meysydd pwnc sector
- A2 Gwella cyfraddau cyrhaeddiad graddau uchel mewn darpariaeth 'Safon Uwch' fel eu bod yn cyd-fynd â chymaryddion cenedlaethol o leiaf
- A3 Rhoi gweithdrefnau ar waith i olrhain y gwerth ychwanegol i ddysgwyr yn eu Medrau Hanfodol
- A4 Gwella olrhain gyrchfannau dysgwyr nad ydynt yn mynd ymlaen i brifysgol.

Y camau nesaf

Bydd Rachael Bubalo AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy ei rôl gyswllt â'r coleg.

Yn gywir,

Lin Howells
Cyfarwyddwr Cynorthwyol